

Cymru

Cafodd ein gwaith yng Nghymru ei gwtogi'n sylweddol yn ystod y flwyddyn yn sgil cyfyngiadau Covid-19 llym, gan gynnwys y cyfnod clo a gorchmynion i 'aros yn lleol'. Ond cafwyd sawl llwyddiant serch hynny.

Braf iawn oedd cael cymeradwyaeth gan ein partneriaid ar gyfer Uwchgyllun Basn Trefor. Nod yr Uwchgyllun yw sbarduno'r gwaith o weddnewid y safle yn gyrchfan o safon byd. Mae cynigion yn cynnwys canolfan ymwelwyr newydd, maes parcio, llwybrau cerdded, pont dros yr afon, gweithgarwch coetir a chanolfan addysg, glampio a gweryslla, taith gerdded i fyny ym mrig y coed, gwell tirlunio a lleiniau i'w datblygu yn y dyfodol. Cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Wrecsam hefyd fod yr Uwchgyllun yn un o'u prosiectau strategol allweddol.

Ym mis Ionawr, dechreuwyd ar y prosiect £128,000 i uwchraddio'r llwybr tyngu ar hyd Camlas Abertawe o Drebanos i Ffin y Sir (Abertawe). Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r prosiect drwy ei Chronfa Teithio Llesol.

Rydym yn falch o fod wedi derbyn grant o £254,000 gan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, Cronfa Natura 2000, ar gyfer gwaith gwella amgylcheddol ar hyd Camlas Maldwyn o Loc Brynderwen i Loc Freestone. Mae'r prosiect yn cynnwys rheoli llystyfiant a chlirio manau cario canŵs.


Gorffennwyd y gwaith uwchraddio gwerth £150,000 ar Bont Godi Wrenbuy ar Gamlas Llangollen cyn y Nadolig. Mae'r rhwystr ar ffurf braich siglo gweithredu â llaw wedi'i ddisodli gan rwystr ar ffurf braich gwmpo awtomatig ar y ddau ben, ffensys diogelwch newydd ger y dŵr ac mae pedestal rheoli pont newydd wedi'i osod.

Gan ddefnyddio grant gan Gyngor Dinas Abertawe, prynodd Cymdeithas



Grant o £254,000

gan Lywodraeth Cymru



Uchod: Uwchgyllun Basn Trefor

Camlas Abertawe un o'n safleoedd ar hyd y gamlas. Rydym yn gweithio gyda'r gymdeithas i ystyried sut gallwn greu 'canolfan gamlas' gyda'u hadeilad newydd ac adeilad cyfagos rydym wedi'i gadw.

Mae'r cyflenwad dŵr i Gamlas Mynwy ac Aberhonddu yn parhau i fod yn broblem. Yn dilyn trafodaethau â Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ar yr anawsterau wrth gyflawni newidiadau arfaethedig i'n tyniadau o Afon Wysg i gyflenwi'r gamlas, buom yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ar y materion rheoleiddio ac amserlenni.

“Gorffennwyd y gwaith uwchraddio gwerth £150,000 ar Bont Godi Wrenbuy ar Gamlas Llangollen cyn y Nadolig.”